


# Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19: Crynodeb ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned ar gyfer Rhuthun

## Cynnwys

Cynnwys ....................2

Pwrpas yr adroddiad hwn ....................3

Cefndir i'r cynllun arfaethedig ....................3

Rhestr o randdeiliaid ....................4

Llinell amser ar gyfer datblygu'r cynllun arfaethedig ....................5

Crynodeb o'r gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd hyd yma ....................6

Adborth o'r cam rhagarweiniol ymgysylltu â'r gymuned ....................7

Adborth o'r cam ymgynghori ....................7

Camau nesaf .................... **Error! Bookmark not defined.**

Senario 1 – mae'r cynllun arfaethedig yn mynd yn ei flaen heb addasiadau ....................9

Senario 2 – awgrymir addasiadau ar gyfer y cynllun arfaethedig ....................10

Senario 3 – gwrthod y cynllun arfaethedig a gwrthod gofyn am ystyried cynigion amgen dichonadwy ....................10

Atodiadau a darllen pellach....................11

Atodiad 1 – dadansoddiad llawn o'r data meintiol o'r arolwg ar-lein ar gyfer Rhuthun ...11

Atodiad 2 – cronfa ddata o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas a'r cynigion ar gyfer Rhuthun.................... **Error! Bookmark not defined.**

## Pwrpas yr adroddiad hwn

Pwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi'r gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd, sy'n mynd rhagddynt, ac sydd wedi'u cynllunio mewn perthynas â'r *Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19 ar gyfer Rhuthun* *<https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/uploadedfiles/CY%20-%20Proposal%20document%20-%20Ruthin%20Town%20Centre.pdf>*. Ni fydd yr adroddiad ei hun yn gwneud unrhyw argymhellion o ran y cynigion cyffredinol ond disgwylir y bydd safbwyntiau rhanddeiliaid a chymuned ehangach Rhuthun sydd wedi'u crynhoi yng nghanfyddiadau'r adroddiad hwn yn cael eu defnyddio gan y Grŵp Ardal Aelodau (MAG) ar gyfer Rhuthun i'w cynorthwyo i wneud eu hargymhellion ar y cynllun arfaethedig i'r Aelod Arweiniol dros Wastraff, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth bellach sydd ar gael megis data synwyryddion ffyrdd, modelu traffig neu ddata arall a ddefnyddiwyd i ddylunio'r cynigion i'w cam cyfredol.

Mae'r opsiynau sydd ar gael y bydd y MAG efallai am eu hargymell i'r Aelod Arweiniol yn debygol o gynnwys (ond efallai na fyddant yn gyfyngedig iddynt):

- Bwrw ymlaen â'r cynllun arfaethedig, heb unrhyw newidiadau
- Gofyn am welliannau i'r cynllun a'i ailgyflwyno i Lywodraeth Cymru (nid oes sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn cytuno i fersiwn ddiwygiedig o'r cynllun)
- Gwrthod y cynllun arfaethedig, a gwrthod gofyn am unrhyw welliannau neu gynigion amgen

Er eglurhad, ni wnaed unrhyw benderfyniad terfynol ar y cynllun arfaethedig ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

## Cefndir i'r cynllun arfaethedig

Ar 7 Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad yn gofyn am fynegi diddordeb ar gyfer yr hyn a alwai'n fesurau trafnidiaeth gynaliadwy leol mewn ymateb i Covid-19, gan nodi “Rydym yn gofyn i awdurdodau lleol fynegi diddordeb cychwynnol erbyn 21 Mai er mwyn inni gael amcan o faint o gyllid y bydd ei angen. Byddwn yna yn gofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl y gofyn er mwyn inni gael ystyried mwy ar y cynigion. Rydym yn rhagweld y bydd y mesurau'n cael eu cyflwyno o ddechrau'r haf ymlaen.”

Mewn ymateb i'r alwad hon am ddatgan diddordeb, cyflwynodd Cyngor Sir Dinbych ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer cynlluniau mewn pedair tref, gan gynnwys Rhuthun gyda'r amcanion cyffredinol o:

- Hyrwyddo a chynnal y nifer sy'n defnyddio dulliau teithio llesol (fel cerdded neu feicio) a welwyd o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 parhaus
- Hwyluso cadw pellter cymdeithasol ar y pellter a argymhellir ar hyn o bryd o 2 fetr lle nad yw'n bosibl gwneud hynny heb fod mesurau ychwanegol ar waith
- Annog a chefnogi busnesau canol tref (lle bo hynny'n bosibl) i ehangu eu cynnig i du allan i'w hadeilad, yn enwedig busnesau bwyd a diod fel caffis, bwytai a thafarndai
- Cefnogi trigolion lleol ac ymwelwyr i deimlo bod eu canol trefi yn amgylcheddau diogel a chroesawgar ar ôl wythnosau (neu fisoedd) i rai busnesau

Cytunodd Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i ddyrannu cyllid i Gyngor Sir Dinbych ar gyfer pedair tref, gan gynnwys Rhuthun. Gwnaed y penderfyniad hwn ar 19 Mehefin. Yn unol â'u cais am 'wybodaeth ychwanegol' cyn dyfarnu'n derfynol, lansiodd y Cyngor ystod o gyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned gan ddechrau 21 Mehefin. Roedd hyn yn cynnwys arolwg rhagarweiniol 'ciplun' i fesur pryderon cyffredinol ynghylch canol trefi a'u hadferiad o'r cyfnod clo, ac yna ymgynghoriad manylach ynghylch y cynlluniau ymateb teithio llesol arfaethedig a oedd yn rhedeg rhwng 9 a 24 Gorffennaf.

## Rhestr o randdeiliaid

Mae'r rhestr o randdeiliaid y mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â nhw neu y bydd yn disgwyl ymgysylltu â nhw ar wahanol gamau o'r cynllun arfaethedig yn cynnwys:

- Cynghorwyr Sir Rhuthun
- Cyngor Tref Rhuthun
- Sefydliadau partner gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru
- Cymuned fusnes ehangach Rhuthun
- Cymuned breswyl Rhuthun

## Llinell amser ar gyfer datblygu'r cynllun arfaethedig

**7 Mai 2020**

- Datganiad Llywodraeth Cymru yn galw am fynegi diddordeb mewn perthynas â hyrwyddo a chynnal teithio llesol a chadw pellter cymdeithasol mewn ymateb i bandemig parhaus Covid-19, gyda dyddiad cau o 21 Mai.
- Cyngor Sir Dinbych yn cyflwyno cynigion cychwynnol mewn pryd ar gyfer y dyddiad cau, gyda'r bwriad o ymgysylltu ac ymgynghori yn nes ymlaen cyn i unrhyw benderfyniadau terfynol gael eu gwneud.

**19 Mehefin 2020**

- Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi 'penderfyniad mewn egwyddor' sy'n rhoi manylion am arian y mae'n barod i'w roi ar gyfer pedair tref, gan gynnwys Rhuthun.
- Cyngor Sir Dinbych yn lansio arolwg amlddewis byr i ddal 'ciplun' o farn pobl am ddychwelyd i ganol trefi ac i dynnu sylw at unrhyw bryderon eraill. Bydd yr arolwg hwn yn fyw tan ddiwedd y gwanwyn / dechrau haf 2021.

**9 Gorffennaf 2020**

- Lansio ymgynghoriad gyda dyddiad cau i ymateb o 10 diwrnod gwaith (24 Gorffennaf).
- Derbynnir sylwadau trwy arolwg ar-lein, e-bost, llythyr ysgrifenedig, galwad ffôn, a bydd y Cyngor yn gwneud nodyn cryno o unrhyw drafodaeth a geir trwy sianeli allanol fel e-ddeisebau, sgwrs cyfryngau cymdeithasol ac ati.

**Wythnos yn dechrau 10 Awst 2020**

- Grwpiau Ardal Aelodau Lleol (MAG) sy'n gyfrifol am Rhuthun i drafod canfyddiadau'r ymgysylltu a'r ymgynghori rhagarweiniol, cyn cyflwyno argymhellion i'r Aelod Arweiniol dros Wastraff, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd.

**Wythnos yn dechrau 24 Awst 2020**

- Aelod Arweiniol dros Wastraff, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd i wneud penderfyniad ar bob un o'r pedwar cynllun.
- Llywodraeth Cymru wedi'i hysbysu.

**Wythnos yn dechrau 7 Medi 2020**

- Ymgysylltu dilynol wedi'i gynllunio gyda chymunedau a rhanddeiliaid eraill yn Rhuthun yn seiliedig ar ganlyniad penderfyniad dirprwyedig yr Aelod Arweiniol.

## Crynodeb o’r gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd hyd yma

Hyd yma, gwnaed y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori canlynol:

| Dyddiad | Crynodeb o’r Gweithgarwch | Rhanddeiliaid sy’n cymryd rhan |
|---|---|---|
| 19 Mehefin 2020 | Cyfarfod gweithgor cyntaf ‘Adfer Canol y Dref’ | Gweithgor swyddogion mewnol (Cyngor) yn bennaf |
| 21 Mehefin 2020 | Lansio arolygon cyhoeddus ar-lein ar gyfer preswylwyr a busnesau mewn perthynas benodol â phryderon ynghylch ailagor canol trefi | Busnesau yn y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Llangollen a Chorwen<br><br>Ymwelwyr â chanol trefi (lleol ac o fannau eraill) i'r trefi a enwir uchod |
| 9 Gorffennaf 2020 | Lansio ymgynghoriadau cyhoeddus ar gyfer cynigion Cludiant Cynaliadwy Lleol dros dro | Cynghorwyr Sir ar gyfer Rhuthun, y Cyngor Tref, a chymuned fusnes a phreswyl ehangach Rhuthun |

## Adborth o’r cam rhagarweiniol ymgysylltu â’r gymuned

Er mwyn deall sut roedd busnesau a thrigolion / ymwelwyr yn Sir Ddinbych yn teimlo wrth i gymunedau ddechrau chwilio am ‘normal newydd’ lansiodd y Cyngor arolwg ar 21 Mehefin i ofyn i bobl am eu barn, fel rhan o brosiect Adfer Canol y Dref parhaus. Mae'r arolwg yn debygol o redeg tan wanwyn 2021 gan fod y Cyngor yn gobeithio deall y pwysau y mae busnesau canol tref yn eu hwynebu ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac wrth i effaith Covid-19 barhau i ddatblygu.

Cyn i'r ymgynghoriad Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19 ar gyfer Rhuthun gael ei lansio ar 9 Gorffennaf, roedd dros 130 o ymatebwyr wedi cymryd rhan yn yr Arolygon Adfer Canol y Dref, gyda 19 ohonynt yn dod o Ruthun. Er bod y nifer hwn yn rhy fach i gael ei ystyried yn sampl gynrychioliadol o ddefnyddwyr canol tref, nododd sylwadau cynnar gan yr ychydig ymatebwyr hyn fod defnyddwyr canol tref yn peidio cadw pellter cymdeithasol, a cherbydau yn parcio ar balmentydd neu'n parcio ar linellau melyn dwbl ar lwybrau i fyny at Sgwâr Sant Pedr yn destun pryder.

Derbyniwyd 65 o ymatebion pellach i’r arolwg Adfer Canol y Dref rhwng 9 Gorffennaf a 26 Gorffennaf (y cyfnod ymgynghori) ac roedd sylwadau yn parhau i nodi bod diffyg (neu ddiffyg canfyddedig) o gadw pellter cymdeithasol, fod lled palmentydd yn peri pryder, yn ogystal â mynegi cefnogaeth i gyflwyno elfen o 'ddiwylliant caffi' i ardal Sgwâr Sant Pedr. Bwriadwyd i 10 sylw a dderbyniwyd i'r arolwg prosiect *Adfer Canol y Dref* ar y cam hwn gael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad *Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19* ar gyfer Rhuthun ac maent wedi'u cynnwys gyda hwnnw i'w dadansoddi.

## Adborth o’r cam ymgynghori

Lansiodd y Cyngor ymgynghoriad ar-lein rhwng 9 a 26 Gorffennaf 2020 i ofyn am farn leol ar y cynllun Ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol arfaethedig i Covid-19 ar gyfer Rhuthun.

Derbyniodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 606 o sylwadau yn uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Cyngor Tref Rhuthun** a gyflwynodd lythyr cyffredinol yn **cefnogi'r** cynllun. Hefyd, darparodd y Cyngor Tref ddarluniau steil ‘argraff artist’ y gwnaethant ofyn i’r Cyngor Sir eu cynnwys gyda’r dogfennau ymgynghori ar gyfer preswylwyr a busnesau.

Nododd **Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch** eu bod yn cefnogi, mewn egwyddor, amcanion y cynigion ar gyfer Rhuthun, ond codwyd nifer o bryderon. Roedd y rhain yn bennaf yn bryderon y gallai'r cynigion arwain at gynnydd mewn ceir yn parcio ar y stryd mewn ardaloedd sensitif neu dreftadaeth, pryderon y gallai ailgyfeirio gynyddu cyflymder traffig, a phryderon cynaliadwyedd y cynigion yn y tymor hwy.

Derbyniwyd tri e-bost gan drigolion lleol, dau o blaid y cynllun arfaethedig ac un yn erbyn.

Derbyniwyd **601 o ymatebion trwy wefan Porth Sgwrs y Sir,** 591 ohonynt yn uniongyrchol ar yr ymgynghoriad ar-lein ar gyfer y cynigion a derbyniwyd 10 trwy brosiect ymgysylltu *Adfer Canol y Dref* ar wahân a oedd yn rhedeg ar yr un pryd.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr a wnaeth eu sylwadau trwy Borth Sgwrs y Sir yn gyffredinol o blaid cynnig i greu llwybrau unffordd dros dro mewn rhannau o Stryd y Farchnad a Stryd y Ffynnon i gefnogi mesurau cadw pellter cymdeithasol ac i greu lleoedd newydd ar y cyd i gerddwyr / beicwyr, gyda 81.33 % o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y cynigion yn dderbyniol. Roedd y pryderon yn ymwneud yn bennaf â cherddwyr a beicwyr yn gorfod rhannu lle, ac effaith bosibl y newidiadau ar ymwelwyr anabl ac oedrannus â chanol y dref, neu sydd fel arall yn ddibynnol ar geir y mae'n well ganddynt barcio ar y stryd na defnyddio maes parcio cyfagos.

Yn seiliedig ar ddata ymatebwyr, defnyddio canol y dref ar gyfer siopa yw'r pwysicaf o hyd o fymryd, ond gyda phwyslais clir ar ganol y dref at ddefnydd hamdden / cymdeithasol hefyd. Roedd y rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr dros ymweld â chanol y dref fel a ganlyn:

| Rheswm dros ymweld â Chanol Tref Rhuthun | Canran o ymatebwyr a oedd yn teimlo ei bod yn bwysig iawn |
|---|---|
| Siopa am hanfodion | 62.41% |
| Cymdeithasu / bwyta allan | 57.33% |
| Treulio amser yn yr awyr agored | 54.79% |
| Treulio amser gyda ffrindiau / teulu | 51.8% |
| Siopa am bethau nad ydynt yn hanfodol | 39.62% |
| Gweithio neu wirfoddoli yng nghanol y dref | 27.8% |

Mae mwy o wybodaeth am yr ymatebion ar gael yn yr adroddiad data manwl.

## Crynodeb o'r gweithgarwch ymgysylltu yn y dyfodol

O ran ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori, mae'r arolygon ar-lein 'Ailagor ein Canolfannau Trefi ar ôl Covid-19' a ddefnyddiwyd i gipio data rhagarweiniol cyn yr ymgynghoriadau yn parhau tan ddiwedd y gwanwyn / dechrau haf 2021. Mae'r cyngor yn annog preswylwyr, ymwelwyr a busnesau i barhau i rannu eu profiadau o'r amser a dreuliwyd yng nghanol tref Rhuthun. Bydd y profiadau hyn yn ddata etifeddiaeth defnyddiol a byddant yn cynorthwyo'r cyngor i barhau i gynllunio a chefnogi Rhuthun yn y dyfodol.

O ran y camau nesaf ar gyfer y cynlluniau *Cludiant Cynaliadwy Lleol* arfaethedig, ni fydd unrhyw ymgysylltiad pellach yn cael ei gynllunio nes bydd yr Aelod Arweiniol dros Wastraff, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, wedi penderfynu ar sut i fwrw ymlaen â phob cynllun, ar 25 Awst 2020.

Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau, beth bynnag fydd canlyniad penderfyniad yr Aelod Arweiniol, bod cymuned Rhuthun yn teimlo ei bod yn cael cefnogaeth i gymryd rhan a dweud eu dweud am amcanion ehangach y Cyngor ynghylch teithio lleol a chludiant cynaliadwy. Er na all y Cyngor roi sicrwydd ar hyn o bryd o ran beth fydd penderfyniad yr Aelod Arweiniol, mae senarios posibl yn cynnwys:

### Senario 1 – mae'r cynllun arfaethedig yn mynd yn ei flaen heb addasiadau

Os bydd y cynllun arfaethedig ar gyfer Rhuthun yn mynd rhagddo heb unrhyw addasiadau, mae'r Cyngor yn bwriadu gweithio gyda'r gymuned trwy gydol y cynllun i ddeall yr effaith y mae'n ei gael, a bydd yn defnyddio'r adborth cymunedol hwn i bennu i ba gyfeiriad y bydd unrhyw gynigion teithio llesol ar gyfer Rhuthun a'r ardal gyfagos gymryd yn y dyfodol. Oherwydd bod y cynllun arfaethedig yn un dros dro, byddai'r Cyngor yn gallu addasu neu ddileu'r cynllun ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod prawf. Nid yw treial llwyddiannus yn gwarantu y byddai unrhyw gynllun yn cael ei wneud yn barhaol, a byddai gan y Cyngor rwymedigaeth statudol (gyfreithiol) i ymgynghori'n eang â'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol eraill cyn gwneud unrhyw newidiadau parhaol i seilwaith canol tref.

## Senario 2 – awgrymir addasiadau ar gyfer y cynllun arfaethedig

Os yw MAG Ruthin a / neu'r Aelod Arweiniol yn credu bod awydd cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid a chymuned Rhuthun i fynd ar drywydd ymateb Cludiant Cynaliadwy Lleol i Covid-19, ond yn teimlo bod y cynigion cyfredol yn amhriodol, gallant ofyn bod y cynigion yn cael eu haddasu neu eu hail-ddylunio. Gwneir hyn gan swyddogion sydd ag arbenigedd cynllunio tref a diogelwch ffyrdd, a bydd y safbwyntiau a rannwyd eisoes gan gymuned a rhanddeiliaid Rhuthun yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon.

Yna bydd angen i'r Cyngor ail-ymgynghori â chymuned a rhanddeiliaid Rhuthun cyn cyflwyno unrhyw gynigion terfynol i Lywodraeth Cymru.

Nid oes unrhyw sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn cytuno i gefnogi cynnig wedi'i addasu, er bod y Cyngor yn gobeithio, os mai hyn yw canlyniad penderfyniad yr Aelod Arweiniol, y byddai Llywodraeth Cymru yn cytuno i unrhyw gynigion wedi'u haddasu sy'n unol â'r cais gwreiddiol i gefnogi a chynnal teithio llesol yn Rhuthun fel rhan o ymateb parhaus y Cyngor i bandemig Covid-19 (ac nid ydynt ar gost ariannol sylweddol wahanol).

Os bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno, byddai'r Cyngor wedyn yn bwriadu cynnal ystod o fonitro parhaus ac ymgysylltu â'r gymuned, fel yr amlinellwyd yn senario 1 (uchod).

## Senario 3 – gwrthod y cynllun arfaethedig a gwrthod gofyn am ystyried cynigion amgen dichonadwy

Os yw MAG Ruthin a'r Aelod Arweiniol o'r farn bod y cynllun arfaethedig mewn ymateb i'r pandemig Covid-19 parhaus yn Rhuthun yn anghymesur neu'n amhriodol i anghenion Rhuthun, gallant wrthod y cynnig heb ofyn am gynnig wedi'i addasu neu gynnig arall.

Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau, hyd yn oed os mai dyma'r canlyniad, bod trafodaethau'n cael eu hwyluso gyda chymuned Rhuthun o ran eu safbwyntiau parhaus ynghylch teithio llesol yn Rhuthun yn fwy cyffredinol. Mae'n debygol y bydd y Cyngor yn cyhoeddi rhaglen arall o ymgysylltu ar-lein a fydd yn ceisio deall ymateb y gymuned i benderfyniad o'r fath, a hefyd i ddeall yr hyn y gallent obeithio ei weld yn Rhuthun yn y dyfodol.

Bydd yr adborth hwn yn ddefnyddiol wrth gynllunio datblygiadau yn y dyfodol, ac yn benodol bydd yn ddefnyddiol wrth gynllunio ystod fwy helaeth o ymgynghori ac ymgysylltu

â'r gymuned ynghylch dyletswydd statudol hirdymor y Cyngor o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i ymchwilio, datblygu a hyrwyddo teithio llesol ar draws y sir.

## Atodiadau a darllen pellach

### Atodiad 1 – dadansoddiad manwl o’r data ymgysylltu ar-lein ar gyfer Rhuthun